Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Canolfan Integredig i Blant Trelái a Chaerau
Michaelston Road
Trelái
Caerdydd
CF5 4SX

23/04/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Mawrth 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr â Chanolfan Integredig i Blant Trelái a Chaerau yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dwy o'u blaenoriaethau o'u cynllun gwella presennol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â phlant a staff, ac ystyried dogfennau. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Ymgysylltu ag Oedolion: Parhau i gryfhau a gwella cysondeb rhyngweithio rhwng oedolion a phlant trwy arfer fwriadol, gynhwysol a pherthynol

- Mae arweinwyr yn dangos arweinyddiaeth gref a myfyriol trwy brosesau hunanwerthuso cadarn. Maent yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir ac yn cymryd camau amserol. Mae hyn yn cefnogi gwelliant parhaus mewn darpariaeth.
- Ceir ymrwymiad clir ac effeithiol i ddysgu proffesiynol parhaus. Caiff hyfforddiant ei weddu'n dda i anghenion dynodedig staff. Maent yn defnyddio dull addas sy'n seiliedig ar ymchwil ac yn rhannu eu hymchwil a'u dealltwriaeth yn dda yn ystod trafodaethau a chyfarfodydd. Mae hyn wedi arwain at hyder cynyddol ymhlith staff ac wedi cefnogi mwy o gysondeb mewn arfer ar draws y lleoliad.
- Mae gan lawer o staff ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ganolfan, yn cynnwys yr angen i sicrhau rhyngweithio o ansawdd uchel ag oedolion a defnydd cyson o iaith adferol. Maent yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn effeithiol i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, ac mae ychydig o staff yn parhau i ddatblygu eu harfer.
- At ei gilydd, mae hyn yn cefnogi'r rhan fwyaf o blant i ddangos rheoleiddio emosiynol cryf. Maent yn cyfleu eu teimladau'n effeithiol ac yn datrys gwrthdaro yn

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

annibynnol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at amgylchedd dysgu digynnwrf ac anogol y ganolfan.

- Mae arweinwyr a staff yn meithrin partneriaethau cryf â rhieni. Maent yn cynnwys plant a theuluoedd yn weithredol mewn llunio cwricwlwm sy'n ymatebol yn ddiwylliannol. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o berthyn, parch am amrywiaeth, a gwerthfawrogiad cynnar o wahanol ieithoedd, diwylliannau a thraddodiadau yn bwrpasol.

### Datblygu amgylcheddau a phrofiadau cyfoethog a chynhwysol sy'n hyrwyddo medrau iaith, meddwl a datrys problemau plant, gan gefnogi datblygiad cyfannol trwy gwricwlwm sy'n parchu plentyndod

- Mae arweinwyr a staff yn darparu cwricwlwm cyfoethog a chynlluniedig sy'n meithrin ethos creadigol, archwiliol a chynhwysol ar gyfer pob un o'r plant mewn amgylchedd dysgu effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn llwyddo i ennyn ymgysylltiad plant a chefnogi eu diddordebau. Trwy ddull 'Rhythm y Flwyddyn' hynod effeithiol, ochr yn ochr ag addasiadau parhaus i ymateb i gyfareddion dyddiol, mae oedolion yn cefnogi dilyniant plant yn dda.
- Mae gan arweinwyr a staff berthynas waith gynhyrchiol â rhieni. Mae digwyddiadau fel sesiynau 'Aros a Chwarae ' a mynd ati i ofyn am adborth rhieni, ac ymateb iddo, yn cyfrannu'n dda at feithrin cyfathrebu cynhyrchiol ac effeithiol rhwng y ganolfan a'r cartref.
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod dysgu proffesiynol pwrpasol yn cefnogi gwelliannau yn ymarferol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae staff yn cyflwyno darpariaeth gyson o ansawdd uchel sy'n cael ei chyfoethogi gan brofiadau gwerthfawr fel 'Ysgol Goedwig' ac 'Ysgol Draeth'.
- Mae staff yn adnabod plant yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt. Maent yn defnyddio dulliau creadigol a holi effeithiol i ddatblygu eu medrau meddwl, datrys problemau a chyfathrebu yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynorthwyo plant i ddyfalbarhau pan mae dysgu'n heriol.
- Mae ymarferwyr ar draws y lleoliad yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn llwyddiannus, gan gynorthwyo plant i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.
- Mae arweinwyr a staff yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Maent yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o arsylwadau o ddysgu plant yn effeithiol i lywio cynllunio a chefnogi cynnydd plant o'u mannau cychwyn. Rhennir y wybodaeth hon yn ystyrlon gyda rhieni, er enghraifft trwy'r teithiau dysgu manwl.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf y ganolfan a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ely-and-caerau-integrated-childrens-centre-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol